## Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt

### Ffeithiau Allweddol

| |
|---|
| **Mae tair Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yr AHNE, 6.6% o'r arwynebedd tir** |
| **Mae dwy Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yr AHNE, 4.4% o'r tir** |
| **Mae 22 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), dros 2000 o hectarau (11% o'r arwynebedd tir) yn yr AHNE** |
| **Ceir 1 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn yr AHNE, sef Ynys Enlli ac 1 gerllaw sef Cors Geirch (hefyd yn safle RAMSAR)** |

### Cyflwyniad

Mae Llŷn, yn cynnwys yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn yn cynnal amrywiaeth eang o wahanol rywogaethau a chynefinoedd, rhai ohonynt yn brin ar lefel Genedlaethol ac Ewropeaidd. Er fod cyfoeth o fywyd gwyllt yn parhau mae gwaith ymchwil yn dangos fod dirywiad mawr wedi bod mewn cynefinoedd naturiol a lled naturiol yn Llŷn rhwng dechrau a diwedd y ganrif ddiwethaf. Gweler "Vegetation change in Llŷn between 1920/2 and 1987/8" - J. P Stevens (1992) am fanylion llawn.

Ceir llawer o gyfleon i weld ac astudio bywyd natur yn yr ardal yn cynnwys anifeiliaid, adar tir, adar y môr a bywyd morol. Mae'r cyfoeth o fywyd gwyllt sydd ar riniog y drws hefyd yn adnodd addysgol effeithiol y gall ysgolion cynradd ac uwchradd fanteisio arno. Daw rhai ymwelwyr i Lŷn yn arbennig i weld a mwynhau'r bywyd gwyllt tra bod llawer o ymwelwyr eraill hefyd yn mwynhau rhyw elfen ar fywyd gwyllt yr ardal tra yn aros yma. Mae bywyd gwyllt felly yn adnodd sy'n cyfrannu at apêl yr ardal i ymwelwyr ac felly yn cyfrannu at economi yr ardal.

Casglwyd llawer o wybodaeth ar rywogaethau lleol wrth baratoi Natur Gwynedd yn 2003 a chafodd yr wybodaeth yma ei diweddaru ar adegau. Hefyd mae gwybodaeth ar gael am statws nifer o'r rhywogaethau ar lefel Cymru a Gwynedd wedi bod ar gael ond yn ddiweddar (Medi 2016) cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (State of Natural Resources Report – SoNaRR) gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Am fwy o fanylion gweler: www.naturalresources.wales/sonarr?lang=cy .

Mae'r Adroddiad yn asesu cyflwr adnoddau naturiol Cymru a pha mor gynaliadwy y maent yn cael eu rheoli, yn ogystal ag argymell ffyrdd i greu gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Hefyd mae'r Adroddiad yn creu cysylltiad rhwng cyflwr adnoddau naturiol Cymru a lles pobol y wlad – edrychir yn benodol ar sut mae adnoddau naturiol yn cefnogi y saith nod lleisiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar sail yr wybodaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol bydd Llywodraeth Cymru yn gosod blaenoriaethau a pholisïau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn y dyfodol. Yna bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, gan weithio gyda partneriaid, yn paratoi Datganiadau Ardal er mwyn gweithredu'r polisïau ar lefel leol.

Yn gyffredinol mae'r Adroddiad yn dangos fod cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru yn dirywio – mae llai o amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau, maint cynefinoedd

wedi lleihau, cyflwr yn amrywio a chysylltedd wedi lleihau yn sylweddol. Mae hyn yn cael effaith ar y gwasanaethau all yr ecosystemau hyn eu ddarparu.

Daeth cyfrifoldeb penodol tuag at warchod Bioamrywiaeth ar Awdurdodau Lleol yn sgil Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006. Fel dilyniant i hyn gosododd Deddf yr Amgylchedd 2016 ddyletswydd newydd ar bob Awdurdod Cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth. O dan ofynion y Ddeddf bydd angen i Gyngor Gwynedd baratoi Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth erbyn Mai 2017 a'i adolygu bob dwy flynedd yn dilyn hynny.

## Dynodiadau Cadwriaethol

Oherwydd bod nifer o gynefinoedd a rhywogaethau prin yn yr ardal mae cyfres o ddynodiadau Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol mewn grym. Y prif ddynodiadau Ewropeaidd o ran cynnal a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau yw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGA).

**Ardaloedd Cadwraeth Arbennig -** Dynodiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd 1992 i ddiogelu cynefinoedd, planhigion ac anifeiliaid o dan fygythiad yw hwn. Dyma'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd a rhywogaethau. Mae'r safleoedd hyn hefyd wedi eu dynodi yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Safleoedd Gwarchod Arbennig. Mae 3 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn Llŷn, sef : Clogwyni Pen Llŷn, Corsydd Llŷn a Phen Llŷn a'r Sarnau.

ACA Clogwyni Pen Llŷn: Mae'r dynodiad hwn yn eithaf eang (877 ha) a môr Iwerddon yn ffin iddo. Mae'n agored i wyntoedd a thywydd gorllewinol ac mae'r ardal yn cynrychioli yr enghreifftiau gorau o rostir arfordirol a morol a gwelltiroedd rhostir ar y Penrhyn. Dynodwyd yr ardal oherwydd ei bod yn rhyngwladol bwysig am y clogwyni a chynefinoedd cysylltiedig. Mae'r ardal yn cynnwys rhannau o nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r rhostir yn yr ACA mewn cyflwr boddhaol ond y clogwyni yn anfoddhaol ac yn gwella. Gorbori a thanbori oedd y prif ffactorau yn effeithio ar gyflwr y cynefinoedd ac felly ar gyfer y dyfodol mae pori cywir/ addas yn hollbwysig er cynnal a gwella cyflwr. Mae'r cyflwr o ran Brain Coesgoch ac Adar Drycin Manaw yn foddhaol.

ACA Corsydd Llŷn: Mae yma 4 safle penodol sydd tua chanol Penrhyn Llŷn gyda rhan oddi mewn yr AHNE, sef Cors Hirdre, Cors Geirch, Rhyllech Uchaf ac Abergeirch. Arwynebedd yr holl safleoedd a ddynodwyd yw 282.28 ha. Mae'r ACA hon hefyd yn cynnwys Safle Ramsar Cors Geirch ond mae'r safle honno oddi allan i AHNE Llŷn. Mae eu cyflwr o ran cynefin cors a malwod yn anffafriol – oherwydd tan bori, ymledaeniad coed a scrwb a materion rheoli dŵr. Fodd bynnag mae gwelliant wedi bod yn ddiweddar sgil prosiect LIFE + corsydd Llŷn a Môn.

ACA morol Pen Llŷn a'r Sarnau: Ardal forol eang iawn (14,604 ha) sydd yn ymestyn o Benrhyn Nefyn hyd at Afon Clarach i'r gogledd o Aberystwyth felly dim ond rhan o'r ardal sydd yn cysylltu â'r AHNE. Gweler mwy o fanylion am y dynodiad, rheolaeth ayb ar www.penllynarsarnau.co.uk.

**Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) -** Dynodir yr ardaloedd yma o dan Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd ar warchod bywyd gwyllt (Y Gyfarwyddeb Adar) er mwyn cynnal cynefinoedd dau gategori arbennig o adar sef rhywogaethau prin neu dan fygythiad a rhywogaethau mudol sy'n teithio miloedd o filltiroedd i gyrraedd gwahanol leoedd - ac sydd angen mannau diogel ar gyfer gorffwys. Mae 2 Ardal Gwarchod Arbennig yn yr AHNE, sef AGA Arfordir Aberdaron ac Ynys Enlli ac AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Tudwal.

AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli - Mae ardal yma yn cynnwys rhan helaeth o arfordir o Borthor i Aberdaron ac yn cynnwys Ynys Enlli ac Ynysoedd Gwylanod. Mae'r arfordir amrywiol hwn yn cynnwys rhostir a glaswelltir sydd yn gynefin i amrywiaeth o blanhigion a phoblogaeth o'r Fran Goesgoch. Mae Ynys Enlli yn gartref i'r boblogaeth fwyaf o Ddrycin Manaw yn y DU, sy'n rheswm am bwysigrwydd rhyngwladol yr ynys.

AGA Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal/ Mynydd Cilan. Mae'r arfordir yma yn agored i wyntoedd o'r de-orllewin, ac mae'r clogwyni sydd yn cysgodi'r traethau yn erydu'n gyson gan gynnig clytwaith o waddod moel, a chynefinoedd morwrol a thwyni cyfoethog eu blodau. Mae yno hefyd ardaloedd sylweddol o rostiroedd sych a gwlyb, a chynefinoedd creigiog rhynglanwol o ddiddordeb morwrol, oherwydd rhwydwaith o rywogaethau prin. Mae'r rhain yn cynnwys un yn unig o ddwy boblogaeth o'r Saer Wenynen (OSMIA XANTHOMELENA) sydd o dan fygythiad. Mae'r ardal hon hefyd yn bwysig iawn yn benodol oherwydd y boblogaeth o'r Fran Goesgoch. Mae'r safle hon yn cael ei defnyddio gan 3% o boblogaeth Prydain Fawr o'r aderyn trwy dymhorau bridio a di-fridio. Mae'r clogwyni a'r ogofau yn cynnig safleoedd bridio a nythu, tra mae'r clogwyni, rhostiroedd, y morwellt, a'r porfeydd a'r caeau cyfagos yn cynnig safleoedd bwyta trwy'r flwyddyn.

Gweler Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE 2014 am fwy o wybodaeth am y safleoedd hyn.

**Gwlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (RAMSAR) -** Cynefinoedd tiroedd gwlyb yw'r rhain sy'n cynnal rhywogaethau amrywiol sy'n bwysig yn rhyngwladol. Mae pedair o gorsydd Llŷn wedi eu dynodi yn safle RAMSAR (Corsydd Llŷn).

**Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)** - Mae'r Gwarchodfeydd hyn yn cynnwys cynefinoedd a nodweddion daearegol pwysig, pob un yn arbennig yn ei ffordd ei hun. Mae pob gwarchodfa hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**.** Ceir 1 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn yr AHNE sef ar Ynys Enlli ac mae'r arwynebedd yn 180ha. Dynodwyd yn Warchodfa Natur Cenedlaethol oherwydd y cynefinoedd morol a rhynglanw, a Brain Coesgoch ac Adar Drycin Manaw.

**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) -** Dynodir ar sail cynefin, rhywogaethau neu ddaeareg arbennig. Mae'r safleoedd yn Llŷn yn amrywio o gorsydd a dolydd i dwyni tywod a choedwigoedd. Mae cyfanswm o 22 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn rhannol neu'n gyfan gwbl oddi mewn yr AHNE mae'r rhain yn cynnwys 2,188 ha (11%) o'r tirlun gwarchodedig. Nid oes SoDdGA newydd wedi ei dynodi ers 2008. Gwelir asesiad o bob SoDDGA yn yr Atodiad sydd yn cynnwys nodi nodweddion y safle, cyflwr, tueddiad a ffactorau rheoli. Gweler Adroddiad ar Gyflwr yr

AHNE 2014 am fwy o wybodaeth am y safleoedd hyn.

Lle'r oedd gwybodaeth ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru am SoDDGA roedd gwelltir, rhostir, dŵr wyneb, coedlannau brasddail lled-naturiol a thwyni mewn cyflwr anfoddhaol ac yn dirywio. Doedd dim gwybodaeth am ffen a chorsydd. Roedd nodweddion gwelltiroedd gwlyb yn foddhaol yn ogystal ag ardaloedd creigiog morol a rhyng-lanw. Y prif faterion oedd yn effeithio ar y cynefinoedd hyn oedd:

- Gwelltiroedd a rhostir: tan bori, rhywogaethau ymledol a llosgi (rhostir sych)
- Corsydd, ffen a dŵr wyneb. Pori a rhywogaethau ymledol, llygredd, safon dŵr, rheoli dŵr
- Coedlannau brasddail- pori a rhywogaethau ymledol
- Arfordir (yn cynnwys clogwyni creigiog, graean, a bolderi, ardaloedd rhwng llanw, twyni tywod a phyllau mewn creigiau), pwysedd hamdden a llygredd.

**Safleoedd Bywyd Gwyllt Posib -** Mae'r safleoedd yma o bwysigrwydd cadwraeth lleol sylweddol ond nid oes statws statudol iddynt ar hyn o bryd. Cyfeirir atynt yn y Cynllun Datblygu Unedol ac maent wedi eu nodi ar system Wybodaeth Ddaearyddol Cyngor Gwynedd.

Nod Strategol Cynllun Rheoli o ran Bywyd Gwyllt yw:

| |
|---|
| **CYNNAL, GWELLA A HYBU CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU ALLWEDDOL A SAFLEOEDD NATUR DYNODEDIG AHNE LLŶN ER MWYN SICRHAU PARHAD YR AMRYWIAETH CYFOETHOG O ANIFEILIAID, PRYFETACH, ADAR A PHLANHIGION.** |

## Cynefinoedd Arbennig

Bellach mae llystyfiant naturiol neu lled-naturiol, sef tir heb ei wella a'i drin yn brin yng Nghymru a Lloegr. Yr esiamplau amlycaf o diroedd fel hyn yw rhostiroedd, tiroedd gwlyb a choetiroedd ac maent i gyd yn bresennol yn Llŷn.

Nid yw coetiroedd brasddail naturiol yn nodwedd amlwg yn AHNE Llŷn ond maent yn gwneud cyfraniad at edrychiad y tirlun a bioamrywiaeth ac yn adnodd prin. Mae coedwigoedd coniffer bythwyrdd wedi eu plannu ar nifer o fryniau a llethrau'r ardal. Nid ydynt yn nodwedd naturiol ond i raddau helaeth maent wedi ennill eu plwyf erbyn hyn ac mae'r effaith ar y tirlun yn amlwg pan fyddant yn cael eu torri a'u clirio.

Gwelir dadansoddiad manwl o'r holl gynefinoedd perthnasol i Lŷn yn Natur Gwynedd. Manylir ar hyn drwy nodi beth yw arwynebedd y cynefinoedd pwysicaf (blaenoriaeth Cymru/ Y DU). Mae tabl yn yr Atodiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bresenoldeb ac arwynebedd cynefinoedd pwysig sy'n bodoli yn AHNE Llŷn.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd yn Llŷn wedi eu cynnwys fel cynefinoedd sy'n flaenoriaeth o ran gwarchod amrywiaeth biolegol yng Nghymru yn Adran 42, Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Manylir ar y cynefinoedd pwysicaf

yn yr ardal isod:

**Cynefinoedd arfordirol -** Mae llawer math o gynefin arfordirol yn Llŷn gan gynnwys clogwyni, llethrau, tir arfordirol, traethau a thwyni tywod. Mae’r clogwyni a llethrau yn cynnal amrywiaeth o lystyfiant ac yn gynefin pwysig i adar y môr fel y Gwylog, Llurs, y Fulfran a’r Fulfran Werdd. Mae Carreg y Llam ger Llithfaen a Thrwyn Cilan yn ardaloedd nodedig i wylio rhai o’r adar hyn tra mae’r Pâl yn amlwg iawn ar Ynysoedd y Gwylan a’r Adar Drycin Manaw yn cartrefu ar Enlli.

Yn fwy i’r tir mae’r llystyfiant yn araf droi yn borfeydd arfordirol a rhostir sydd eto yn gartref i amrywiaeth o adar yn cynnwys Gwenoliaid y Glennydd a’r Frân Goesgoch. Mae’r tiroedd hyn hefyd yn gynefin i gacwn a rhai creaduriaid di-asgwrn cefn prin.

Mae traethau yn gynefinoedd amlwg yn Llŷn a cheir nifer o systemau twyni tywod ar hyd arfordir deheuol y penrhyn. Mae twyni tywod yn un o gynefinoedd mwyaf naturiol i’w weld ym Mhrydain ac yn gartref cyfoethog i rywogaethau prin. Mae systemau twyni yn cael eu cydnabod i fod o bwysigrwydd rhyngwladol i fywyd gwyllt; maent yn cynnwys planhigion fel moresg, amrywiaeth o ffyngau, madfallod megis madfall y tywod a nifer fawr o anifeiliaid di-asgwrn-cefn megis y gardwenynen.

Heddiw mae twyni tywod o dan fygythiad ac mae niferoedd rywogaethau yn gostwng oherwydd bod prysgwydd yn lledaenu a thwyni tywod yn gor-sefydlogi. Un rheswm am hyn yw diffyg pori’r tir. Y system dwyni ger Abersoch yw’r un amlycaf yn yr AHNE (“Y Warren”). Mae’r system yma yn dioddef yn sylweddol oherwydd pwysedd ymwelwyr yn ystod yr haf ac amryw o ddatblygiadau megis parciau carafanau, cyfleusterau parcio a glaswelltir wedi ei wella neu led wella er mwyn creu porfa neu linciau golf.

**Rhostir –** Mae rhostiroedd yn nodwedd amlwg a phwysig yn Llŷn ac mae rhostiroedd gwlyb, sych, isel ac arfordirol i’w cael yma. Maent yn gynefin a nodwedd ar y tirlun ac hefyd yn cyfrannu ar lefel hanesyddol, diwylliannol ac fel adnodd hamdden (mae llawer o rostiroedd yr ardal yn diroedd comin sydd yn egluro paham nad ydynt wedi eu gwella er mwyn amaethu). Mae’r rhostiroedd yn cynnal amrywiaeth eang o borfa a phlanhigion diddorol megis Rhosyn y Graig yn ychwanegol i grug a’r eithin brodorol sydd mor lliwgar yn Awst a Medi.

Mae’r rhostiroedd arfordirol yn bwysig yng nghyd-destun Ewropeaidd oherwydd eu bod yn nodweddiadol o rostiroedd gorllewinol sydd wedi prinhau yn sylweddol iawn ers yr Ail Ryfel Byd. Bellach dim ond 0.3% o arwynebedd y DU sydd yn rhostir isel. Gwnaed llawer o waith cynnal, rheoli, adfer a gwella mynediad i’r rhostiroedd lleol dan brosiect Cadw’r Lliw yn Llŷn. Datblygwyd y prosiect gan bartneriaid yn cynnwys CYMAD, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, RSPB a Chyngor Gwynedd.

**Glaswelltir a gweirgloddiau –** y prif ddefnydd tir yn yr ardal yw porfeydd amaethyddol. Mae llawer iawn o’r glaswelltiroedd naturiol wedi eu colli yn dilyn y chwyldro amaethyddol a fu’n gyfrifol am glirio, draenio a gwella tiroedd. Yn ddiweddar mae bygythiad newydd i laswelltir naturiol gan ymlediad scrwb, rhedyn a gweiriau bras o ganlyniad i ddiffyg pori. Dim ond llecynnau bychain o laswelltir naturiol a geir ar ôl erbyn hyn sef tir anodd ei drin megis tir gwlyb neu dir serth ac ymylon ffyrdd. Mae’r

tiroedd naturiol hyn yn gartref i gyfoeth o fywyd gwyllt; planhigion megis pengaled, llygaid llo mawr, briallu Mair a perwallt y gwanwyn, adar megis yr ehedydd a'r gylfinir, gloÿnnod byw, a llawer o ymlusgiaid a phryfetach.

Mae'r glaswelltiroedd pwysicaf wedi eu dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac mae cytundebau rheoli yn ei lle ar gyfer rhai ohonynt. Hefyd oherwydd ei brinder mae glaswelltir heb ei drin a gweirgloddiau gwair yn destun taliadau sylweddol o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd fel Glastir.

**Coetiroedd a choed -** Mae coedwigoedd brasddail yn brin iawn yn yr AHNE ac mae'r rhai pwysicaf, a'r rhai dan fygythiad, wedi eu gwarchod gan Orchmynion Diogelu Coed. Y bygythiad mwyaf i'r coed hyn yw datblygiadau newydd fyddai'n gofyn am dorri coed, diffyg rheolaeth gywir yn arwain at ddirywiad ac afiechydon megis darfyddiad derw a chlefyd llwyfen yr Iseldiroedd.

Prin yw coetiroedd collddail cynhenid yn cynnwys coed megis derw, ynn, cyll, bedw a chriafol yn yr AHNE. Erbyn hyn dim ond mannau bychan, gwasgaredig iawn o goedlannau collddail lled-naturiol sydd yma ar lethrau, ochrau dyffrynnoedd, coridorau afonydd ac ar diroedd yr ystadau. Mae'r coedlannau hyn yn cyfrannu at y tirlun ac yn gynefinoedd sydd yn cynnal cyfoeth o rywogaethau yn cynnwys mwsoglau a chen prin. Un o'r coedlannau naturiol pwysicaf yw'r goedwig hynafol ger Plas yn Rhiw. Prin hefyd yw'r coedwigoedd cymysg - o goed brasddail a choniffer ond mae cynnydd mewn arwynebedd fel mae ymdrechion i reoli a lleihau ar y coed coniffer.

Mae ardaloedd o goed coniffer yn amlwg iawn ar rai o lechweddau yr ardal megis Garn Fadrun, Garn Boduan, Mynydd Rhiw, Nant Gwrtheyrn a Moel Penllechog. Ychydig o gyfraniad a wna'r rhain fel cynefin a bydd y tirlun yn cael ei adael yn foel pan gant eu torri. Mae cyfleon ar gyfer ail blannu'r ardaloedd hyn gyda choed brodorol.

Mae gwarchodaeth a rheolaeth gywir o goedwigoedd yn hanfodol i'w lles tymor hir. Un bygythiad i rai coetiroedd yw rhododendron ponticum a all ymledu'n gyflym gan atal tyfiant naturiol y goedwig. Bygythiad arall yw pori dwys sydd yn dirywio'r coetir yn laswellt gwael wrth i'r coed farw o henaint a dim coed ifanc yn tyfu.

Mae nifer o gyrff yn gweithredu o ran gwarchod, cynnal, rheoli a hyrwyddo coed a choedlannau yng Nghymru, yn cynnwys Pen Llŷn sef:

- **Coed Cadw** ("Woodland Trust") – Elusen sy'n anelu i warchod a hyrwyddo coed cynhenid ac ysbrydoli pawb i werthfawrogi a mwynhau coed a choedlannau. Anelir i warchod coed hynafol, adfer coedlannau a chreu coedlannau newydd.
- **Coed Cymru** - Menter ar gyfer Cymru gyfan, i hyrwyddo rheolaeth coetiroedd llydanddail a'r defnydd o bren caled. Rhoddir cymorth diduedd am ddim i ffermwyr, perchnogion coetiroedd a rheolwyr, grwpiau cymunedol a busnesau pren

Ychydig o **fawndir a chorsydd** sydd yn yr AHNE ei hun. Maent yn gynefinoedd pwysig i amrywiaeth eang o blanhigion ag anifeiliaid, a hefyd yn adnodd amgylcheddol pwysig trwy sugno nwyau tŷ gwydr a phuro dŵr trwy dynnu gormodedd o faetholion a

gwaddodion.  Collwyd llawer o diroedd gwlyb drwy amaethyddiaeth ddwys a gweithgareddau megis sychu tir a llygru dŵr gyda gwrteithiau.

Mae Cors Geirch, sydd yn ymestyn o Rydyclafdy i lawr i gyfeiriad Edern ar yr arfordir gogleddol yn fawndir o bwysigrwydd rhyngwladol ac fe ddynodwyd y mawndir yma yn Warchodfa Natur Cenedlaethol. Mae'r hesg, mwsogl a'r blodau tal megis llafnlys mawr yn tyfu ar y safle sy'n gynefin prin ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn cefn yn cynnwys y falwen droellog, gwas y neidr, y neidr ac amffibiaid fel y llyffant. Dynodwyd Cors Geirch, a chorsydd eraill Llŷn (Cors Hirdre, Rhyllech Uchaf ac Aber Geirch) yn safle RAMSAR ac Ardal Cadwraeth Arbennig a bellach mae prosiect uchelgeisiol dan nawdd LIFE + i adfer a chynnal y corsydd hyn.

**Tiroedd gwlyb** - yn ôl Arolwg Cynefinoedd 1990 Cyngor Cefn Gwlad Cymru mae Llŷn o ddiddordeb arbennig oherwydd cyfres o dir lleidiog cyfoethog sydd yn ardaloedd canolog Llŷn, yn cynnwys yr Afon Geirch a hefyd o amgylch yr Afon Penrhos. Mae arolwg 1995 ar Warchodfa Natur Leol Lôn Cob Bach Pwllheli yn datgan "diddordeb uchel" mewn ymestyn y Warchodfa i gynnwys ardal yn amgylchynu'r Afon Penrhos oherwydd bod yr ardal yn ymddangos i gynnwys cyfoeth o fywyd gwyllt.

**Terfynau caeau** - Mae waliau cerrig, gwrychoedd ac yn arbennig cloddiau yn nodweddion amlwg ar dirlun Llŷn ac maent hefyd yn gynefinoedd pwysig yn ogystal â bod yn nodwedd amlwg ar y tirlun. Ceir amrywiaeth o fywyd gwyllt yn ddibynnol ar y terfynau hyn a po hynaf y terfyn y mwyaf cyfoethog yw'r bywyd gwyllt. Mae rheoliadau yn bodoli i warchod gwrychoedd (Rheoliadau Gwrychoedd) tra mae cynlluniau amaeth-amgylchedd yn gymorth i gynnal ac adfer terfynau traddodiadol eraill.

**Ymylon ffyrdd -** dyma gynefin lled-naturiol sy'n bwysig o ran cadwraeth natur am amryw o resymau. Maent yn ffynhonnell fwyd ac yn gysgodfa sydd yn cynnal coridorau bywyd gwyllt heb lawer o ymyrraeth.  Er hynny, mae problem o ran planhigion estron ymledol megis Canglwm Siapaneaidd mewn rhai mannau.  Mae Cyngor Gwynedd yn cadw cofrestr o ymylon ffyrdd a diddordeb cadwraeth natur, yn cynnwys nifer yn ardal AHNE Llŷn. Mae'r cynefin hwn hefyd yn cael ei gynnwys yn Natur Gwynedd.

**Cynefinoedd morol -** Oherwydd pwysigrwydd amryw o gynefinoedd a rhywogaethau morol yn ardal Llŷn a'r Sarnau, er enghraifft y riffiau a'r aberoedd, mae'r ardal wedi cael ei ddynodi yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau Ewropeaidd.  Mae'r riffiau yn cefnogi amrywiaeth eang o gymunedau fflora a ffawna yn cynnwys amrywiaeth o goedwigoedd gwymon, sbyngau a chwistrellau môr. Mae gwybodaeth bellach ar gael yng Nghynllun ACA Pen Llŷn a'r Sarnau a safle we www.penllynarsarnau.co.uk .

**<u>Rhywogaethau Allweddol</u>**

Mae natur lonydd a di-lygredd Llŷn yn sicr wedi cyfrannau at barhad llawer o rywogaethau sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai prin yn ynysoedd Prydain.  Mae Natur Gwynedd (2004) yn diffinio'r rhywogaethau sy'n bwysig yng Ngwynedd ac o hynny adnabyddwyd rhai sydd yn benodol bwysig i'r AHNE ym mhob categori mamaliaid, pysgod, adar, ymlusgiaid, creaduriaid di-asgwrn cefn a phlanhigion – gweler

yr Atodiad am y tabl llawn.

Nid oedd gwybodaeth am niferoedd y rhywogaethau a nodir yn benodol ar gyfer AHNE Llŷn wrth adolygu'r Cynllun Rheoli

**Mamaliaid -** Mae amrywiaeth o famaliaid prin yma yn Llŷn a'r AHNE sydd wedi eu hadnabod fel rhai blaenoriaeth:-

- Y Dyfrgi - cynnydd wedi bod yn yr ardal, presennol yn afon Soch a dangosodd arolygon diweddar ei fod yn defnyddio cynefinoedd arfordirol yn Llŷn.
- Y Ffwlbart - presennol ond diffyg gwybodaeth am leoliad a niferoedd.
- Ysgyfarnog - presennol ond diffyg gwybodaeth am leoliad a niferoedd.
- Llygoden ddŵr - arolygon diweddar yn awgrymu fod Llŷn yn gadarn le ond diffyg gwybodaeth fanwl.
- Ystlum bedol leiaf - clwydfannau yn Llŷn ond dim gwybodaeth fanwl

.

**Rhywogaethau morol** - Mae dyfroedd arfordirol Llŷn yn llawn bywyd morol. Mae'r morloi llwyd yn gyffredin i'r ardal (ar lannau Enlli yn arbennig) yn ogystal â dyfrgwn, llamhidyddion harbwr a dolffiniaid trwynbwl. Mae lleoliad a nodweddion arbennig y bae a mynediad da i ddŵr dwfn oddi ar Ynys Enlli, yn gynefin addas i'r dolffin Risso.

Mae'r morloi llwyd a'r dolffin trwynbwl yn rywogaethau sydd yn cael eu cydnabod yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth DU a hefyd yn cael ei gwarchod trwy gyfarwyddeb Undeb Ewropeaidd 'Cynefinoedd a Rhywogaethau'. Mae Grŵp ACA Bae Ceredigion wedi paratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y rhywogaethau yma'n benodol ac yn gweithio'n agos gyda'r grwpiau a'r mudiadau trwy fforymau fel Grŵp Dolffiniaid Cymru (Welsh Cetacean Group) i rannu gwybodaeth. Mae Cynllun Rheoli ACA Pen Llŷn a'r Sarnau yn rhoi sylw manwl i gynefinoedd yr ACA yn ogystal â rhywogaethau.

**Adar -** Mae Penrhyn Llŷn yn gynefin i amrywiaeth helaeth o adar tir ac adar môr, rhai ohonynt yn rhywogaethau prin. Soniwyd am rai o'r rhain eisoes ond ymysg y rhai pwysicaf mae'r Fran Goesgoch a welir ar logo AHNE Llŷn. Yn 2002 roedd 67 o safleoedd a pharau yng Ngwynedd ond nid oes gwybodaeth am faint yn union sydd yn yr AHNE. Mae yma rywogaethau eraill o adar o bwysigrwydd Ewropeaidd hefyd gan gynnwys Y Pâl, Gwylog, Mulfran a'r Aderyn Drycin Manaw.

Ymysg adar tir pwysig yr ardal mae'r Dylluan Wen – amcangyfrifir fod tua 20 pâr yn nythu yng Ngwynedd ar gyfartaledd a Phen Llŷn yn un o gadarnleoedd. Hefyd, er wedi prinhau'n sylweddol mae'r gornchwiglen yn bresennol yma ond diffyg gwybodaeth am leoliad a niferoedd.

**Anifeiliaid di asgwrn cefn -** Eto mae anifeiliaid di-asgwrn cefn nodedig yn byw yn ardal Llŷn, er nad oes sicrwydd fod rhai oddi mewn ffin yr AHNE ei hun. Mae gwybodaeth fanwl yn yr atodiad ond ymysg y rhywogaethau prin mae:

- Brith y Gors, sef glöyn byw o liw oren, aur a du sydd dan fygythiad ac yn prinhau - presennol yn Cors y Wlad a Chors Gyfelog ger ffin yr AHNE.

- Pryf Lladd- presennol yng Nghors Geirch ger ffin yr AHNE ac yn ôl adroddiadau yn Cilan a Nefyn ar un adeg. Ei gynefin naturiol ar dir heb ei drin a rhostir wedi prinhau.

**Planhigion -** Mae amrywiaeth fawr o flodau a phlanhigion gwyllt yn Llŷn. Yn y gwanwyn bydd ochrau ffyrdd gwledig yr ardal yn gyforiog o flodau gwyllt lliwgar fel bysedd y cŵn, blodyn neidr, moron gwyllt a briallu. Ar hyd y cloddiau mae'r eithin yn amlwg iawn a hefyd y ddraenen wen a'r ddraenen ddu. Ar hyd y gelltydd môr mae'r serynnen wanwyn las a'r glustog fair llachar yn gynnar yn yr haf.

Ar y rhostiroedd fel Mynydd Tir y Cwmwd a'r Eifl mae'r eithin mân cynhenid a'r grug yn lliwgar ac yn drawiadol iawn ddiwedd yr haf. Ymysg y planhigion eraill pwysig yn yr ardal mae clychau'r gog sy'n bresennol ar rai o lethrau megis yn ardal Llanaelhaearn a gwelir rhai math o degeirian ar gorsydd yr ardal.

## Materion Allweddol

Ar ôl asesu tueddiadau a dogfennau polisi ayb credir mai'r materion allweddol ar gyfer cyfnod y Cynllun Rheoli (2015-20) fydd y canlynol:

### Newid hinsawdd

Bellach mae tystiolaeth pur gadarn fod newid graddol yn hinsawdd y byd yn sgil cynnydd mewn tymheredd. Allyriadau o nwyno tŷ gwydr a CO2 yn benodol sy'n gyfrifol am hyn trwy niweidio'r haen oson a newid cyfansoddiad yr aer. Mae CO2 yn cael ei arllwys i'r awyr trwy losgi tanwyddau ffosil, gweithfeydd a diwydiannau a llygredd o foduron, loriau, llongau ac awyrennau ayb. Er nad oes tystiolaeth leol am newid hinsawdd mae'n wir dweud fod newidiadau bychan i'w gweld yn y tymhorau sydd yn ymddangos i gadarnhau effeithiau newid hinsawdd.

Mae tystiolaeth wyddonol yn rhagweld mai effeithiau cynhesu byd eang fydd cynnydd graddol mewn tymheredd aer a dŵr y môr. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at newid tymhorol – a'r farn o ran Prydain yw y bydd hafau yn gynhesach ond gwlypach, gaeafau yn llai oer ac eto yn wlypach a chyfnodau amlach o dywydd anarferol – glaw mawr, gwyntoedd a dyddiau o wres.

Yn sicr bydd newid hinsawdd yn dylanwadu ar fioamrywiaeth trwy amharu ar rhai rhywogaethau a chynefinoedd. Bydd y newidiadau yn golygu y bydd rhai rhywogaethau cynhenid dan fygythiad tra bydd rhai rhywogaethau eraill yn ffynnu a rhai rhywogaethau newydd yn ymddangos. Hyd yma nid oes llawer o wybodaeth na thystiolaeth o ran newidiadau sy'n debygol o ran bioamrywiaeth yn ardal hon.

Mae'r lle i'r AHNE chwarae rhan o ran newid hinsawdd trwy annog a hyrwyddo mesurau i lleihau allyriant CO2 trwy arbed ynni, creu ynni adnewyddol ar raddfa addas, teithio mwy cynaliadwy ayb. Hefyd mae angen codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ac effeithiau tebygol ar yr ardal.

**Amaethyddiaeth**

Yn y gorffennol mae amaethyddiaeth wedi cael effaith eithaf sylweddol ar fywyd gwyllt trwy wledydd Prydain. Roedd y diwydiant yn cael ei yrru gan bwysedd i gynhyrchu mwy o gynnyrch am bris rhesymol ac roedd grantiau ar gael i sychu tir gwlyb, aredig a thrin tir, tynnu cloddiau ayb. Hefyd roedd defnydd eang o chwynladdwyr, pla-laddwyr a gwrteithiau yn ail hanner y ganrif ddiwethaf. Mae astudiaethau wedi dangos fod hyn wedi cael ardrawiad sylweddol ar fywyd gwyllt yn cynnwys adar.

Dechreuodd pethau newid tua diwedd y ganrif ddiwethaf. Gyda gwaith ymchwil, gwybodaeth ffeithiol ac arbenigedd daeth sylweddoliad fod gor-gynhyrchu a gor-ddibyniaeth ar gemegolion ac effeithiau hynny. Ers hynny mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol amrywiol wedi eu cyflwyno oedd yn rhoi grantiau tuag at waith amgylcheddol fel creu a glanhau llynnoedd, codi cloddiau, adfer waliau a phlannu gwrychoedd. Mae'r cynlluniau hyn, a'r cynllun Glastir presennol (a'r Taliad Sengl sy'n gosod amodau traws- gydymffurfio) yn sicr o fudd i gynefinoedd a bywyd gwyllt trwy Gymru.

Fodd bynnag mae rhai gweithgareddau amaethyddol yn parhau i gael ardrawiad ar gynefinoedd a rhywogaethau. Y prif weithgareddau amaethyddol a allai gael effaith ar gynefinoedd, dŵr a bywyd gwyllt yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli yw:

- Pori a lefelau stocio (tan bori a/neu gor bori yn medru bod yn niweidiol)
- Slyri yn mynd i gyrsiau dŵr, nentydd ac afonydd
- Gwrteithiau artiffisial yn all-lifo i nentydd ac afonydd (nitrogen)
- Pla-laddwyr a chwynladdwyr
- Mwy o arbenigol mewn un math o ffermio mewn ffurf mwy dwys.

**Grantiau a Prosiectau Amgylcheddol**

Gall prosiectau helpu i gynnal, adfer a gwella rheolaeth o gynefinoedd a thrwy hynny darparu ar gyfer
rhywogaethau penodol.

Yn y gorffennol cafwyd prosiectau fel Natur Gwynedd, Tirlun Llŷn a phrosiect y Gronfa Natur yn Llŷn a wnaeth lawer i wella rhai cynefinoedd yn Llŷn - yn arbennig terfynau traddodiadol, pyllau a llynnoedd a rhostiroedd. Hefyd mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy sy'n gysylltiedig â dynodiad yr AHNE wedi cefnogi prosiectau llesol i fywyd gwyllt ar raddfa lai fel Caeau Tan y Bwlch a Morwellt Porthdinllaen. Y gobaith yw y gellir datblygu prosiectau eraill tebyg yn y dyfodol er budd bioamrywiaeth lleol.

Yn ogystal â grantiau amaethyddol Glastir mae grantiau wedi eu darparu gan Coed Cadw a Coed Cymru er mwyn gwella coedlannau presennol trwy gyflwyno mwy o goed cynhenid a gwell rheolaeth.

**Planhigion ymledol**

Yn ddiweddar mae planhigion ymledol a phlanhigion ymledol estron wedi dod yn fwy o broblem yn yr ardal. Er nad oes gwybodaeth benodol i gefnogi y farn yw fod arwynebedd o redyn wedi ymledu yn sgil lefelau stocio is mewn ar rai tiroedd – e.e ochrau bryniau a hefyd llecynnau bach o dir ddim yn cael eu ffermio bellach. Hefyd mae cyfyngiad ar y defnydd o'r chwynladdwr Asulam a bygythiad y bydd yn cael ei wahardd yn gyfan gwbl. Yr arwyddion felly yw bydd rhedyn yn ymledu ymhellach gan amharu ar gynefin fel rhostir a thir pori garw a'r rhywogaethau sydd yn byw yn y mannau hynny.

Prin yw'n enghreifftiau o Ganglwm Siapaneaidd ("Japanese Knotweed") ar hyn o bryd ond mae cynnydd wedi ei weld yn y degawd diwethaf. Oherwydd gwytnwch y planhigyn ymledol hwn, ei allu i ymledu a'r ffaith nad oes unrhyw gynllun na phrosiect penodol i'w ddifa mae'n debygol y bydd yn cynyddu gan amharu ar blanhigion cynhenid.

Cynyddu hefyd mae'r Jac y Neidiwr ("Himalayam Balsam") a hynny ar raddfa gyflym. Mae'r planhigyn yn ymledu trwy daflu ei had ymhell ac mae'n hoff o fannau gwlyb fel ochrau afonydd – felly gall yr had deithio ymhell. Mae Jac y Neidiwr bellach wedi ymledu yn sylweddol mewn rhai dyffrynnoedd a mannau gwlyb yn Llŷn a gyda'r potensial i ymledu llawer ymhellach.

**Rheoliadau Amgylcheddol**

Mae nifer o ddynodiadau Ewropeaidd yn berthnasol i nifer o safleoedd yn Llŷn yn cynnwys yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a safleoedd Ramsar. Mae Brexit yn creu ansicrwydd mawr ynglŷn â dyfodol y dynodiadau hyn sydd yn cynnig cynhaliaeth a gwarchodaeth i'r safleoedd dan sylw.

Yn ogystal, mae rheoliadau Ewropeaidd ynglŷn â phlaladdwyr a chwynladdwyr yn berthnasol i Brydain ac wedi eu creu er mwyn gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd.

Mae ansicrwydd mawr felly o ran y dyfodol a bydd yn bwysig arolygu'r sefyllfa a chael yr wybodaeth ddiweddaraf. Efallai y gellir ystyried dynodiadau cadwriaethol cenedlaethol neu leol i gymryd lle'r rhai Ewropeaidd os na fyddent yn berthnasol i Brydain yn y dyfodol.

**Gwasgfa ariannol**

Mae cwtogi ariannol ar wariant cyhoeddus blynyddoedd ers 2008/9 yn dilyn helynt y banciau. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar wahanol sefydliadau ac adrannau cyhoeddus yn cynnwys yr Awdurdodau Lleol a chyrff cadwriaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru (a'i ragflaenwyr Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd).

Mae toriadau ariannol sylweddol wedi bod yn Nghyngor Gwynedd dros y blynyddoedd a'r mwyaf yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd yn 2015. Mae'r toriadau wedi cael effaith ar nifer o wasanaethau yn cynnwys Cefn Gwlad a Mynediad a'r Uned Bioamrywiaeth gan olygu lleihad mewn staff a chyllidebau. Effaith hyn ydi lleihau staff, gorfod blaenoriaethu

gwaith a chanolbwyntio ar waith statudol yn unig ar draul datblygu a gweithredu prosiectau, hyrwyddo ayb.

**Datblygiadau newydd**

Mae datblygiadau newydd yn gallu amharu ar gynefinoedd a rhywogaethau, yn cynnwys tai, siediau, datblygiadau amaethyddol, gwelliannau ffordd ayb. Wrth gwrs mae'n rhaid i'r holl ddatblygiadau hyn dderbyn hawl cynllunio trwy'r broses ffurfiol ac felly byddent yn cael eu hasesu gan wahanol adrannau y Cyngor (yn cynnwys yr Uned Bioamrywiaeth a'r Gwasanaeth AHNE pan yn berthnasol) a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gellir felly wrthwynebu datblygiadau fyddai yn niweidiol i fywyd gwyllt neu argymell amodau i'r cysylltu i'r hawl cynllunio.

Nid oes unrhyw safleoedd o faint sylweddol wedi eu dynodi ar gyfer datblygu yn ardal Llŷn yng Nghynllun Datblygu Gwynedd. Ar y cyfan felly nid oes pryderon mawr am effaith datblygiadau newydd ar fywyd gwyllt yr ardal.

## POLISIAU

**BP 1.** HYRWYDDO GWARCHODAETH A RHEOLAETH ADDAS O GYNEFINOEDD ALLWEDDOL LLŶN.

Mae amrywiaeth eang o gynefinoedd yn bodoli yn AHNE Llŷn sydd yn adlewyrchiad o'r tirwedd a'r arfordir amrywiol a welir yn yr ardal. Bellach mae llystyfiant naturiol neu lled-naturiol, sef tir heb ei wella a'i drin yn brin yng Nghymru a Lloegr. Yr esiamplau amlycaf o diroedd fel hyn yw rhostiroedd, tiroedd gwlyb a choetiroedd ac maent i gyd yn bresennol i ryw raddau yn Llŷn. Gwelir dadansoddiad manwl o'r holl gynefinoedd perthnasol yn Natur Gwynedd ond yn fras mae'r cynefinoedd allweddol yn cynnwys cynefinoedd arfordirol amrywiol (traethau, clogwyni, twyni tywod ayb), rhostir, glaswelltir a gweirgloddiau, coetiroedd a choed, mawndir a chorsydd, terfynau caeau ac ymylon ffyrdd a chynefinoedd morol.

**BP 2.** RHOI SYLW ARBENNIG I WARCHOD, RHEOLI A HYRWYDDO DEFNYDD ADDAS O DIROEDD COMIN YN LLŶN.

Mae tir comin yn nodwedd bwysig yn yr AHNE ac yn ffurfio cynefin gwerthfawr gan ei fod yn dir heb ei drin i raddau helaeth, hefyd yn cynnig cyfleon mynediad (ond nid ydynt mewn perchnogaeth cyhoeddus). Ceir cyfanswm o 30 safle i gyd dros arwynebedd sylweddol o dir ac mae hawliau amrywiol ynghlwm â'r gwahanol safleoedd (e.e pori, casglu coed tân). Rhostir neu dir pori garw yw llawer o'r tir ac ychydig o reolaeth sydd wedi bod ar rai safleoedd gan olygu fod y tir wedi tyfu yn wyllt a rhedyn yn gyffredin. Mae rhai tiroedd comin yn nwylo'r Ymddiriedolaeth genedlaethol ac wedi elw o hynny a chynlluniau megis gan Bartneriaeth Tirlun Llŷn sydd wedi clirio gor-dyfiant ac ail gyflwyno pori.

**BP 3.** GWARCHOD, CYNNAL A GWELLA RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT LLŶN YN ARBENNIG Y RHAI A DDYNODWYD DAN DDEDDFAU EWROPEAIDD NEU YN RHAI O BWYSIGRWYDD UCHEL IAWN YN NEDDF ANCG 2006 A GWRTHWYNEBU UNRHYW DDATBLYGIADAU

NIWEIDIOL.

Mae yna gyfoeth o fywyd gwyllt a gwahanol rywogaethau yn AHNE Llŷn ac mae natur lonydd a di-lygredd yr ardal yn sicr wedi cyfrannau at barhad llawer o rywogaethau sydd bellach yn cael eu hystyried fel rhai prin yn ynysoedd Prydain. Mae rhai rhywogaethau wedi ei dynodi er gwarchodaeth dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac eraill o bwysigrwydd uchel iawn yn Neddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC Act). Mae'r rhain wedi ei rhannu yn famaliaid, adar, pysgod, ymlusgiaid ag amffibiaid, anifeiliaid di-asgwrn cefn, planhigion falgwlaidd, cen, mwsoglau a llysiau'r afu, ffwng, rhawn yr ebol a rhywogaethau morol.  Mae nifer o'r rhain yn bresennol yn Llŷn.

**BP 4.** CEFNOGI PROSIECTAU I GREU A GWELLA CYSYLLTIAD RHWNG SAFLEOEDD PWYSIG O RAN CYNEFIN A BYWYD GWYLLT.

Mae cysylltedd ecolegol rhwng cynefinoedd a symudiad rhywogaethau trwy'r tirlun yn holl bwysig i les tymor hir bioamrywiaeth. Bydd y Gwasanaeth AHNE, Cyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi a datblygu cynlluniau a prosiectau i gryfhau cysylltedd a datblygu cysylltiadau newydd oherwydd hynny. Bydd hyn yn dilyn ymlaen ar nifer o brosiectau a wireddwyd yn ddiweddar gan Partneriaeth Tirlun Llŷn. Rhoddir arweiniad ar flaenoriaethau lleol mewn dogfennau fel Natur Gwynedd,  Strategaeth Cysylltedd Arfordirol Llŷn (2013) ac Awdit Bywyd Gwyllt Llŷn (2013).

**BP 5.** RHOI BLAENORIAETH I ASESU EFFEITHIAU POSIBL NEWID HINSAWDD AR GYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU BYWYD GWYLLT CYNHENID YR ARDAL A MESURAU POSIB I DDYGYMOD Â HYNNY.

Bellach fe brofwyd fod newid hinsawdd yn cymryd lle ac fod hynny yn mynd i gael effaith ar gynefinoedd a bywyd gwyllt. Credir ei bod yn bwysig cymryd camau i geisio rhagweld be fydd effaith newid hinsawdd ar AHNE Llŷn fel y gellir adnabod mesurau i'w cymryd i ymateb i hynny. Bydd angen ystyried gwybodaeth arbenigol yn y maes gan sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru (Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol), Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, Y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar ayb.

**BP 6.** CYDWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AR BROSIECTAU I DRIN RHYWOGAETHAU YMLEDOL CYNHENID AG ESTRON A CHODI YMWYBYDDIAETH AMDANYNT A'R FFORDD O'U TRIN A'U GWAREDU.

Yn hanesyddol roedd rhedyn yn cryn broblem yn yr ardal hon – mae'n tueddu i dyfu ar dir mynyddig a mygu planhigion eraill. O'r 1960au ymlaen hefo chwynladdwyr mwy effeithiol a phori mwy dwys bu lleihad yn yr arwynebedd o redyn ond yn ddiweddar mae cynnydd unwaith eto oherwydd lefelau stocio llai dwys a chyfyngiadau ar chwistrellu (mae'n bosibl y bydd y chwynladdwyr mwyaf effeithiol yn cael ei wahardd yn fuan). Bwriedir cefnogi cynlluniau i godi ymwybyddiaeth a threialu dulliau o reoli rhedyn.

Y planhigion ymledol estron amlycaf yw canclwm siapaneaidd a jac y neidiwr gyda rhai

ardaloedd bychan o rododendron. Hyd yma nid yw'r rhywogaethau hyn wedi ymledu yn sylweddol er fod cynnydd wedi bod o ran safleoedd ac arwynebedd – yn enwedig o ran jac y neidiwr. Anelir i gydweithio er targedu safleoedd penodol, codi ymwybyddiaeth perchnogion tir a chynnal hyfforddiant.

**BP 7**. CODI YMWYBYDDIAETH A GWELLA DEALLTWRIAETH AM GYNEFINOEDD A BYWYD GWYLLT O BWYSIGRWYDD YN LLŶN A HYRWYDDO GWIRFODDOLWYR I GYMRYD RHAN MEWN PROSIECTAU RECORDIO A CHADWRAETH.

Gwybodaeth gyffredinol iawn sydd gan y rhan fwyaf o bobol leol ac ymwelwyr am gynefinoedd pwysig Llŷn a'r cyfoeth o fywyd gwyllt sydd yn yr ardal. Heb wybodaeth a dealltwriaeth o arferion rhywogaethau ni ellir eu gwerthfawrogi a cheisio cymryd camau fydd er lles iddynt. Credir fod lle i weithio gyda mudiadau cadwriaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Gymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar, Gwasanaeth ACA Pen Llŷn a'r Sarnau ayb i codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth yn pobol gan gynnwys plant ysgol.

**BP 8.** GWELLA YMWYBYDDIAETH AM GYFRANIAD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU MEWN DARPARU GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL A BUDDION Y GWASANAETHAU HYNNY O RAN IECHYD A LLES.

Mae'r amgylchedd naturiol, yn cynnwys bywyd gwyllt a chynefinoedd, yn darparu ystod o wasanaethau ecosystem i bobol a chymunedau. Mae bioamrywiaeth yn cyfrannau at bethau fel puro dŵr, amsugno CO2, ffrwythlondeb pridd, peillio ayb. Er fod ymwybyddiaeth ynglŷn â hyn yn cynyddu yn raddol mae llawer eto i'w wneud o ran ymwybyddiaeth cyhoeddus cyffredinol ac ymysg arbenigwyr yn y maes iechyd a lles. Gall y Gwasanaeth AHNE, a phartneriaid eraill, gynorthwyo i wneud hynny ac efallai ddatblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd.